Blood and Transplant

# Beth am siarad am...

## Rhoddi aren i blentyn

**Gall mynd drwy asesiad y rhoddwr a rhoddi aren i blentyn fod yn broses emosiynol. Mae'n bosib i chi bryderu a fyddwch yn rhoddwr addas, neu am y llawdriniaeth ei hun. Mae rhai darpar roddwyr yn ei chael yn fuddiol siarad am y broses ac am eu teimladau gyda pherson sydd wedi bod drwy'r profiad eu hunain. Bydd y rhan fwyaf o ganolfannau trawsblannu yn cynnig cefnogaeth un i un gan gymheiriaid neu sesiynau cefnogaeth cymheiriaid mewn grwpiau.**



### Bod yn gydnaws o ran math meinwe a grŵp gwaed

Trawsblaniad cydnaws gan roddwr byw yw'r opsiwn gorau i blentyn o ran trawsblannu arennau. Mae'n debyg y bydd angen mwy nag un trawsblaniad aren ar blant yn ystod eu bywydau. Mae'n bwysig, felly, fod yr aren a gânt yn dod o roddwr cydnaws. Yr hyn a olygwn yma yw antigen lewcocyt dynol (HLA) agos, y cyfeirir ato'n aml fel bod yn gydnaws o ran 'math meinwe' a grŵp gwaed. Er ei bod yn bosib, ar adegau, cael trawsblaniad anghydnaws gan roddwr byw, mae'n well bob amser anelu am y grŵp gwaed a'r trawsblaniad mwyaf cydnaws o ran HLA yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, os nad oes darpar roddwyr sy'n ddelfrydol ar gyfer y plentyn, gallai Cynllun Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw y DU gynnig opsiwn arall er mwyn dod o hyd i roddwr mwy cydnaws.

### Cefnogaeth gymdeithasol

Mae'n bwysig ystyried y gefnogaeth fydd ar gael i chi pe baech yn bwrw ymlaen i roi aren. Fel arfer, mae'n cymryd rhwng chwech a deuddeng wythnos i wella, a bydd hyn yn effeithio ar eich gwaith a'ch bywyd teuluol. Os yw'r rhoddwr yn rhiant i'r plentyn sydd angen y trawsblaniad, mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod gennych ddigon o gefnogaeth deuluol, i gefnogi'r plentyn ac unrhyw blant eraill. Mae teulu a ffrindiau yn barod iawn, gan amlaf, i gynnig cefnogaeth ymarferol ac emosiynol, felly cofiwch dderbyn unrhyw gynigion caredig o'r fath. Mae cynllun ad-dalu i roddwyr ar gael ledled y DU i ymdrin ag enillion a gollwyd ac unrhyw wariant sy'n gysylltiedig â rhoddi organ.

### Paratoi ar gyfer siwrnai'r plentyn yn dilyn y trawsblaniad

Am y tri mis cyntaf, bydd rhaid ymweld yn aml â chlinigau a bydd yn rhaid monitro'n ofalus swyddogaeth yr aren a drawsblannwyd ac iechyd cyffredinol eich plentyn. Bydd y timau pediatreg yna i'ch arwain a'ch cefnogi ac i'ch cynghori ar sut i gael at unrhyw gefnogaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen arnoch.

## NODIADAU

Cewch ragor o wybodaeth am roddi arennau byw yn **www.organdonation.nhs.uk/become-a-living-donor** ffoniwch **0300 123 23 23** neu e-bostiwch **enquiries@nhsbt.nhs.uk**

Yes I donate
ORGAN DONATION